

CYFARWYDDYD ARDALOEDD CADWRAETH (DATGYMHWYSO GOFYNIAD I GAEL CYDSYNIAD ARDAL GADWRAETH ER MWYN DYMCHWEL) (CYMRU) (2017 Rhif 27)

Mae Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 75(2), (3) a (4) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990¹ ac ac sydd bellach yn ymarferadwy ganddynt hwy² yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Cychwyn

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 31 Mai 2017.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

ystyr "Cylchlythyr 1/98" yw Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddydau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Datgymhwyso gofyniad i gael cydsyniad ardal gadwraeth

3. Nid yw adran 74 o'r Ddeddf yn gymwys i adeiladau o'r disgrifiad a ganlyn
 - (a) adeilad â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 o fetrau ciwbig (y penderfynir arno gan fesuriadau allanol) neu unrhyw ran o adeilad o'r fath, ac eithrio carreg fedd o gyfnod cyn 1925;
 - (b) gât, wal, ffens neu ddull amgáu sy'n llai nag un metr o uchder pan fo'n ffinio â phrffordd (gan gynnwys llwybr troed neu lwybr ceffylau cyhoeddus), dyfrffordd neu fan agored, neu sy'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall;
 - (c) adeilad a godwyd ers 1 Ionawr 1914 ac sy'n cael ei ddefnyddio, neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf, at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth;
 - (d) adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 102 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - (e) adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb a wnaed o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

¹ 1990 p.9

²Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 75(2) i (4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

- (f) adeilad y mae, mewn cysylltiad ag ef, ddarpariaethau hysbysiad gorfodi a ddyroddir o dan adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu adrannau 38 neu 46 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ddymchwel, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pa fodd bynnag y'i mynegir;
- (g) unrhyw adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd amod caniatâd cynllunio a roddir o dan adrannau 70 neu 177(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- (h) adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd hysbysiad a gyflwynir o dan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- (i) adeilad sydd wedi ei gynnwys mewn gorchymyn clirio gweithredol neu orchymyn prynu gorfodol a wneir o dan ran IX o Ddeddf Tai 1985 neu y mae gorchymyn dymchwel a wneir o dan ran II o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;
- (j) adeilad a brynwyd gan awdurdod lleol drwy gytundeb lle y mae rhan IX o Ddeddf Tai 1985 yn gymwys i'r adeilad hwnnw;
- (k) adeilad afraid (o fewn ystyr Mesur Cenhadaeth a Bugeiliol 2011) neu ran o adeilad o'r fath pan fydd yn cael ei ddymchwel yn unol â chynllun bugeiliol neu afreidrwydd (o fewn ystyr y Mesur hwnnw).

Dirymu

4. Mae'r Cyfarwyddyd ym mharagraff 20 o Gylchlythyr 1/98 wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru



Dyddiad

2/5/17